

CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FAWRTH
18 Chwefror 2014, Neuadd Talwrn
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL: Y Cyngorwyr D ap Rhobert, M Huws, M Lees, C McGregor, D Morgan, D Pritchard, D Roberts, W Vaughan	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Williams, W Williams, A Wyn, O Davies, R G Parry (Cyngor Sir), D Rees (Cyngor Sir), N Roberts (Cyngor Sir)	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng W Vaughan. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb.
2	DATGAN DIDDORDEB - Dim
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 21 Ionawr 2014. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng C McGregor yn cynnig a Cyng D ap Rhobert yn eilio
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION
4.1	Torri gwair y maes chwarae a maes peldroed , Talwrn - Dywedodd Cyng C McGregor bod pwyllgor y maes chwarae am cyflwyno cais am grant ar gyfer peiriant torri gwair a bydd aelodau y pwyllgor yn fodlon defnyddio y peiriant. Mae'r Clerc wedi gofyn i'r ysgol am cyfraniad tuag at torri gwair a wedi cael ymateb yn dweud bydd y mater o flaen y llywodraethwyr.
4.2	Gor-yrru Talwrn a Llangwyllog - Dywedodd y Clerc yn dilyn sgwrs gyda'r Cyngor Sir, bydd y Cyngor yn ail edrych ar gor-yrru yn Talwrn ac yn anfon ymlaen adroddiad am gor-yrru Llangwyllog
4.3	Tyn Beudy Talwrn - mae'r gawith yma wedi cael ei wneud
4.4	Maes y Coed (torri coed) - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
4.5	Kiosk BT Llangwyllog - Mae BT yn trefnu glanhau y kiosk.
4.6	Arwydd dim cwn (Mynwent Llanddyfnan)- mae'r Clerc wedi trefnu i'r arwydd cael ei osod
4.7	Ysbwriel Talwrn - mae rhan o'r gwaith wedi cael ei wneud (Sgwar Talwrn - Siop). Mae'r Clerc yn disgwyl i'r Cyngor Sir gwneud lon yr ysgol
4.8	Ffesydd Slieve Donard/Penterfyn - mae rha o'r gwaith wedi cael ei wneud
4.9	Polisi y Cyngor Sir (tyllau/ffesydd) - mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
	Llofnod.....Cadeirydd 18.03.14

5	GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON
	Cynllunio
5.1	23C314 Rhybydd o fwriad i ddymchwel anecs yn Pen y Garreg, Cefniwrch - dim sylwadau
5.2	23C315 cais amlinellol i ddymchwel yr annedd presennol ynghyd a chodi annedd newydd yn ei le gyda rhai manylion wedi ei gadw yn ol yn Hafan, Mynydd Bodafon - dim sylwadau
5.3	26C266A cais llawn ar gyfer codi sied, ty gwydr, ynghyd a estyniad i'r cwrtil preswyl yn Gwenfro Uchaf, Talwrn - dim sylwadau
	Gwasanaethau Tai
5.4	Y Gronfa ar gyfer gwella amgylchedd a'r gymuned - gwybodaeth yn unig
	Dirprwy Prif Weithredwraig
5.5	Cod Ymddygiad - Darllenwyd llythyr gan y Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Ynys Mon yn dweud bod y Cyngor wedi trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad y blwyddyn diwethaf. Mae'r pwyllgor yn siomedig iawn i nodi nad oedd Cyngor Cymuned Llanddyfnan heb gymryd y tri lle oedd yn cael eu cynnig. "Byddwch yn gwybod ei bod o'r pwysigrwydd mwyaf bod cynghorau Cymuned, sydd hefyd yn dod o dan yr un Côt Ymddygiad â chynghorwyr sir ac yn cytuno i lynu wrtho, yn mynychu hyfforddiant er mwyn sicrhau dealltwriaeth ddigonol o'u hymrwymiaadau; yn arbennig pan ddaw i gydymffurfio gyda datganiadau / cyfrannu mewn materion lle mae ganddynt ddiddordeb personol / rhagfarnol" Yn 2014, bydd y Pwyllgor Safonau yn hytrach yn cynnig hyfforddiant i glercod Cyngor Cymuned / Tref mewn perthynas â rhai meysydd allweddol o'r Côt Ymddygiad. Y bwriad yw canolbwyntio ar barchu ac ystyriaeth ac ar ddiddordebau, gyda'r disgwyl y bydd y clercod wedyn yn rhannu'r hyfforddiant gyda'u haelodau ac y byddant mewn gwell sefyllfa i roi cyngor ynglŷn â disgwyliadau'r Côt mewn cyfarfodydd o'r Cyngor Cymuned.
6	GOHEBIAETH YCHWANEGOL
6.1	Eisteddfod Mon 2014 - cais ariannol - penderfynwyd cynnig rhodd o £100 - Cyng D Roberts yn cynnig a Cyng D Pritchard yn eilio
6.2	Ymgynghoriad Cyngor Ynys Mon - Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd - bydd y Clerc yn anfon y linc ymlaen at yr aelodau
6.3	Atodlen Cyfarfodydd - CoRWM - gwybodaeth yn unig
6.4	Un Llais Cymru - Adeilad Niwclear Trawsfynydd - darllenwyd llythyr gan Cynghorydd J Isgoed Williams, Cyngor Cymuned, Trawsfynydd, sydd yn aelod o'r Grwp Rhandeiliaid Magnox, Safle Trawsfynydd. Mae'r llythyr yn gofyn i bwyllgorau (Un Llais Cymru) ardal Meirionnydd, Arfon / Dwyfor ac Ynys Môn gefngi'r cynnig fod llythyr yn cael ei anfon ar ran y tri phwyllgor yn ategu'r cais a wneir yn y llythyr gwreiddiol i beidio a dod a'r gwaith dad-gomisiynu i ben am gyfnod dros dro o 5 mlynedd ar safle Trawsfynydd. Penderfynwyd cefnogi.
6.5	Prisiau torri gwair y mynwentydd - penderfynwyd hysbysu am prisiau
	Llofnod.....Cadeirydd 18.03.14

7	MATERION ARIANNOL
	Penderfynwyd talu y canlynnol:
7.1	S H Jones - Gosod Hysbysfwrdd £70
7.2	Aelodaeth Un Llais Cymru £126.00
8	MATERION ERAILL
8.1	Dywedodd Cyng D Morgan bydd digwyddiad yn mynd ymlaen yn Llangefni i ddathlu Dydd Gwyl Dewi a bydd Farchnad Ffermwyr yn cael ei gynnal yn Neuadd y Dref. Gofynwyd i pawb cefnogi yr digwyddiad
8.2	Dywedodd Cyng D ap Rhobert bod cwmni ar rhan Scottish Power wedi torri coed wrth ymyl Bryn Ffynnon, Talwrn a wedi gwnud gwaith bler. Gofynwyd i'r Clerc dod ar mater at sylw y cwmni - Glendale
	Llofnod.....Cadeirydd 18.03.14